

## PWYLLGOR CRAFFU AMGYLCHEDDOL

DYDD IAU, 10 TACHWEDD 2022

Yn                   Cynghorydd Owen Jones(Cadeirydd)  
bressenol:

Cynghorwyr Derbyshire, Gibson, Green, Lancaster, Lewis,  
Lloyd Jones, Jackie Parry a/ac Wood

### 35 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriad am absenoldeb.

### 36 : DATGAN BUDDIANNAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiannau.

### 37 : COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Hydref 2022 yn gofnod cywir, ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd.

### 38 : ADRODDIAD MONITRO BLYNYDDOL Y CYNLLUN DATBLYGU LLEOL

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad a oedd yn rhoi'r cyfle i gymeradwyo 6<sup>ed</sup> Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB) y Cynllun Datblygu Lleol (CDLI), ar ôl iddo gael ei gymeradwyo gan y Cabinet a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

Cafodd yr aelodau wybod bod y CDLI wedi ei fabwysiadu ym mis Ionawr 2016. Mae'n ofynnol cyflwyno adroddiadau monitro blynyddol erbyn 31 Hydref bob blwyddyn. Crynhowyd y pynciau a nodwyd gan y Cabinet yn yr adroddiad. Roedd y rhain yn cynnwys Cyflogaeth, Tai, Cludiant, Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr, Canllawiau Cynllunio Atodol a newidiadau cyd-destunol. Daeth yr AMB i'r casgliad fod cynnydd da yn cael ei wneud yn erbyn amcanion CDLI.

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Dan De'Ath, Aelod Cabinet –Trafnidiaeth a Chynllunio Strategol), Andrew Gregory (Cyfarwyddwr Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd) a Stuart Williams (Rheolwr Gweithredol) i'r cyfarfod. Gwahoddwyd yr Aelod Cabinet i wneud datganiad a ddilynwyd hynny gan gyflwyniad byr gan y swyddogion.

Dechreuodd y Cadeirydd y drafodaeth ar yr eitem hon. Gwahoddwyd yr aelodau i ofyn am eglurhad, sylwadau neu godi cwestiynau ar y wybodaeth a ddarparwyd. Mae'r drafodaeth hon wedi ei chrynhofio isod:

- Gofynnodd yr aelodau am eglurhad ar ddosbarthu 'tai fforddiadwy' o gofio bod prisiau tai wedi cynyddu 66% ar gyfartaledd dros gyfnod y CDLI ac, hefyd, a gafodd fforddiadwyedd ei addasu i ystyried y cynnydd hwn. Dywedodd swyddogion fod 'tai fforddiadwy' yn cael eu diffinio gan Bolisi Cynllunio Cymru fel

tai yn y sector rhentu cymdeithasol fel tai cyngor a thai sy'n cael eu datblygu gan gymdeithasau tai sy'n cael eu cynnig i denantiaid mewn rhent sy'n is na gwerth y farchnad.

- Wrth ymateb i bwynt a wnaed gan aelod o'r Pwyllgor, dywedodd y Cyfarwyddwr nad yw datblygiad Plas Dŵr yn gyflawn eto. Nod yr uwchgynllun ar gyfer y datblygiad yw sicrhau cymuned gynaliadwy, ac roedd felly'n anodd gwneud asesiad ar gynllun sy'n anghyflawn. Mae'r AMB yn awgrymu bod y datblygiad yn symud i'r cyfeiriad cywir. Mae'r uwchgynllun yn darparu ar gyfer ystod lawn o gyfleusterau cymunedol, gan gynnwys cynlluniau iechyd, manwerthu a draenio SDCau.
- O ran y datblygiadau tai mwy, roedd Aelod o'r farn ei bod yn aml yn anodd i aelodau'r ward adnabod pwy sydd â chyfrifoldeb dros wahanol agweddau o'r datblygiadau hynny. Derbyniwyd y pwynt, a gofynnodd y Cyfarwyddwr i unrhyw anawsterau penodol gael eu hadrodd i swyddogion yn uniongyrchol.
- Gofynnodd yr aelodau am amcangyfrif o'r nifer tebygol o gartrefi newydd a adeiladwyd erbyn diwedd y CDLI presennol yn 2026. Amcangyfrifodd swyddogion, yn y pedair blynedd sy'n weddill o'r CDLI presennol, fod yr AMB wedi rhagweld y byddai tua 2000 o dai'n cael eu cwblhau bob blwyddyn.
- Gofynnodd yr aelodau a oedd unrhyw gyfle i barhau i bwysu ar ddatblygwyr i wella effeithlonrwydd ynni eu tai ac i gyd-fynd â chyflawniadau'r Cyngor yn eu datblygiad yn Nhredelerch. Dywedodd swyddogion y bydd y Cynllun Datblygu Lleol Newydd yn cynnig cyfle gwych i wella polisi o ran effeithlonrwydd ynni a gosod targedau ar gyfer datblygwyr. Bydd y CDLI newydd yn ceisio mynd i'r afael â materion llawer ehangach o ran ansawdd, yr amgylchedd a lles. Mae'r pwerau sydd gan yr awdurdod i'w gwneud yn ofynnol i ddatblygwyr adeiladu stoc ynni effeithlon yn gyfyngedig ar hyn o bryd ond bydd y CDLI newydd yn ei gwneud yn ofynnol i ddatblygwyr y sector preifat adeiladu i'r safonau uchaf.
- Nododd yr aelodau'r 18 CCA newydd sydd wedi'u cyflwyno yn ystod cyfnod y CDLI presennol. Gofynnodd yr aelodau sut mae effeithiolrwydd y CCAu newydd yn cael ei fonitro a'i asesu. Dywedodd swyddogion fod CCAu yn ystyriaethau materol y mae angen eu hystyried ond nad ydynt yn cario'r un pwysau â'r CDLI. Maent yn rhan bwysig o'r fframwaith ond nid ydynt yn rhwymol. Derbyniodd swyddogion y gallai fod angen adolygu rhai CCAu a byddai'r CDLI newydd yn cynnig cyfle i'w mireinio fel rhan o adolygiad cynhwysfawr o'r CDLI. Roedd yr aelodau o'r farn ei bod yn hanfodol monitro effeithiolrwydd CCAu. Dywedodd swyddogion fod CCAu yn ddogfennau pwysig sy'n atgyfnerthu polisiau CDLI. Maent yn chwarae rôl bwysig ac yn darparu arweiniad ychwanegol. Mae penderfyniadau apêl yn cael eu monitro i sicrhau bod CCAu yn cael eu gweithredu'n effeithiol.

- Gofynnwyd i swyddogion wneud sylw ar yr effaith y byddai cyflwyno cyfyngiadau cyflymder 20mya ar ffyrdd yn y ddinas yn ei chael ar amseroedd teithio bysiau. Fe wnaeth y Cyfarwyddwr gydnabod pryderon darparwyr trafndiaeth gyhoeddus. Mae'r awdurdod yn gweithio'n agos gyda Bws Caerdydd i sicrhau bod gwelliannau i'r rhwydwaith bysiau yn cyd-fynd â'r llwybrau bysiau strategol y mae Bws Caerdydd am eu blaenoriaethu.
- Wrth ymateb i sylw a wnaed ynghylch oedi wrth gwblhau tai, dywedodd y Cyfarwyddwr fod safleoedd tir glas wedi cymryd mwy o amser na'r disgwyl i fod yn gynhyrchiol. Fodd bynnag, mae disgwyl i lawer o alw a chwblhau gynyddu dros y blynyddoedd nesaf. Nid oedd y nifer sylweddol o ddatblygiadau llety myfyrwyr yn cyfrif tuag at ffigyrau preswyl ond erbyn hyn mae llawer mwy o safleoedd tir llwyd llety rhent yn dod ar nant a bydd y rhain yn cael effaith gadarnhaol sylweddol ar ffigyrau cwblhau tai.
- Gofynnodd yr aelodau a oedd hi'n realistig disgwyl i'r targed o 24% o gartrefi fforddiadwy gael ei gyrraedd. Roedd y Cyfarwyddwr o'r farn bod y targed yn gyraeddadwy iawn.
- Gofynnodd yr aelodau beth y gellid ei wneud i wella effeithlonrwydd ynni eiddo hŷn yn y ddinas. Dywedodd swyddogion eu bod yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr ym maes tai ar y mater hwn. Bydd y CDLI newydd yn rhoi ffocws ar ddarparu cartrefi newydd i bobl hŷn. Mae ôl-osod eiddo hŷn yn disgyn y tu allan i gylch gwaith y CDLI.
- Nododd aelodau fod 1,797 allan o darged o 6,646 o gartrefi fforddiadwy (27%) wedi cael ei adeiladu ar ôl i 60% o'r cyfnod o'r CDLI fynd heibio. Gofynnodd aelodau am wybodaeth bellach ynglŷn â pham nad oedd y cyflawniadau cwblhau'n uwch erbyn hyn. Gofynnodd yr aelodau hefyd a oedd y cyfarwyddwr yn hyderus y byddai'r targed cyffredinol yn cael ei gyflawni gan y byddai angen cwblhau 4,849 o dai fforddiadwy ychwanegol ymhen 4 blynedd - 1,200 y flwyddyn ar gyfartaledd. Dywedodd swyddogion nad yw cwblhau wedi bod mor uchel â'r disgwyl oherwydd yr oedi sy'n gysylltiedig â'r cymhlethdodau wrth gael datblygiadau tai strategol mawr wedi dechrau, fel cynulliad tir a chaniatâd cynllunio. Byddai cyfran fawr o'r tai fforddiadwy sydd eto i'w darparu yn cael eu darparu'n gynt ar y datblygiadau tai mwy hynny. Fe gadarnhaodd swyddogion nad oedd yr 'oedi' y cyfeirir ato yn unigryw i Gaerdydd ac y bydd datblygiadau mawr ar draws y DU yn dod ar draws problemau tebyg.
- Gofynnodd yr aelodau pam fod y nifer is na'r disgwyl o gartrefi fforddiadwy a gwblhawyd wedi'u nodi fel 'melyn' yn yr AMB ac nid 'coch'. Dywedodd y Cyfarwyddwr fod y sgôr yn adlewyrchu nifer y tai fforddiadwy gafodd eu cwblhau fel canran o'r holl gwblhau.
- Gofynnodd yr aelodau pam na chafodd plant a phobl ifanc eu cynnwys wrth fesur oedolion oedd yn cymryd rhan mewn dangosydd gweithgaredd corfforol yn

yr adroddiad. Dywedodd swyddogion mai'r Arolygydd Cynllunio oedd yn gosod y dangosyddion. Derbyniwyd y pwynt a byddai hyn yn cael ei ystyried fel rhan o'r broses ar gyfer cytuno ar y cynllun newydd.

- Nododd yr aelodau fod nifer yr oedolion sy'n cymryd rhan yn y lefel a argymhellir o ymarfer corff wedi gostwng gan 10%. Gofynnodd yr aelodau i swyddogion wneud sylw. Dywedodd y swyddogion bod nifer o ffactorau ar waith nad oedd yn angenrheidiol yn gysylltiedig â'r CDLI. Fodd bynnag, mae'r CDLI yn diogelu lle agored, yn darparu ar gyfer rhagor o le agored ac yn annog teithio llesol.
- Gwnaeth yr aelodau sylwadau am y graddau 'gwyrdd' a 'melyn' yn yr AMB. Roedd yr aelodau o'r farn nad oedd nifer o'r graddfeydd hyn yn cyd-fynd â'r gwirioneddau y mae Aelodau'n ymwybodol ohonynt o fewn eu wardiau. Gofynnodd yr aelodau i swyddogion roi sylwadau ar y dangosyddion perfformiad sy'n gweithio a'r rhai sydd angen eu newid i adlewyrchu profiadau bywyd dinasyddion Caerdydd. Dywedodd swyddogion y byddai cyfres newydd o ddangosyddion yn cael eu cyflwyno fel rhan o'r CDLI newydd. Byddai'r dangosyddion presennol yn cael eu hadolygu er mwyn sicrhau eu bod yn fwy effeithiol ac ymatebol. Bydd y dangosyddion newydd yn adlewyrchu'r dulliau polisi a fabwysiadwyd fel rhan o'r CDLI newydd. Derbyniodd swyddogion y pwynt hwnnw a godwyd yn flaenorol gan y Pwyllgor ynghylch monitro effeithiolrwydd CCAu.
- Gofynnodd yr aelodau faint o reolaeth y gellid ei adeiladu i'r CDLI newydd o ran y mathau o ddatblygiad yr hoffai'r Cyngor dwyn ymlaen yn y Ddinas. Dywedodd swyddogion y byddai angen i'r CDLI newydd ddarparu ystod o ddewis mewn tai a bydd Asesiad Tai Marchnad Leol yn cael ei gynnal. Un o nodau cyffredinol y CDLI yw darparu ar gyfer anghenion gwahanol ddemograffeg a mathau gwahanol o aelwydydd. Byddai gan yr awdurdod fwy o reolaeth dros ei ddatblygiad ei hun ond mae pob cais cynllunio'n cael ei farnu yn ôl ei deilyngdod. Mae gan ddinasoedd eraill barthau mewn ardaloedd o'r ddinas i ganiatáu rhai mathau o ddatblygiadau tai.
- Gofynnwyd i swyddogion wneud sylw ar y cynnydd a wnaed ynghylch darparu safleoedd sipsiwn a theithwyr yn y dyfodol. Nododd y swyddog bod asesiad anghenion wedi'i wneud ar y ddau fath o safleoedd sydd eu hangen - teithio a pharhaol. Amlygodd yr asesiad angen am 10 llain dramwy a 170 llain barhaol. Mae trafodaethau'n parhau gydag awdurdodau eraill yn Ne Ddwyrain Cymru ynglŷn â safle tramwy. Mae gwaith yn mynd rhagddo gyda Llywodraeth Cymru ynghylch darparu safle parhaol. Dywedodd y Cyfarwyddwr fod set gymhleth o anghenion ar waith ac y byddai cynigion yn cael eu cyflwyno maes o law.
- Fe gadarnhaodd swyddogion bod yr asesiad anghenion tai yn cynnwys darpariaeth i bobl hŷn a chartrefi gofal. Dywedodd yr Aelod Cabinet ei fod yn cael trafodaeth gyda'i gydweithwyr yn y Cabinet ynglŷn â hyn a hefyd darparu cartrefi plant sy'n cael eu ffactora yn y broses CDLI.

PENDERFYNWYD – Bod y Cadeirydd yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet ar ran y Pwyllgor i gyflwyno unrhyw sylwadau, arsylwadau ac argymhellion a wnaed yn ystod y ffordd ymlaen.

### 39 : YMATEB CABINET I ARGYMHELLION CRAFFU CDLLN

Derbyniodd aelodau adroddiad yn rhoi ymateb y Cabinet i Ymchwiliad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar y Cyd ar y CDLI Newydd. Mae'r ymateb ffurfiol i bob un o'r chwe argymhelliad i'w weld yn yr atodiad i'r adroddiad.

Gwahoddwyd yr Aelod Cabinet dros Gynllunio Trafnidiaeth a Strategaeth i wneud datganiad byr. Derbyniodd aelodau gyflwyniad ar ganfyddiadau'r Ymchwiliad Gorchwyl a Gorffen a'r Ymateb Cabinet. Cafodd pump o'r chwe argymhelliad eu derbyn. Fodd bynnag, gwrthodwyd argymhelliad 1.

Dechreuodd y Cadeirydd y drafodaeth ar yr eitem hon. Gwahoddwyd yr aelodau i ofyn am eglurhad, sylwadau neu godi cwestiynau ar y wybodaeth a ddarparwyd. Mae'r drafodaeth hon wedi ei chrynhai isod:

- Gofynnodd yr aelodau sut yr ymgynghorwyd â'r aelodau hynny o'r gymuned sy'n cael eu heithrio'n ddigidol, gan fod cymaint o'r rhai sy'n cael eu heithrio'n ddigidol hefyd yn cael eu tangynrychioli. Dywedodd swyddog fod yr ymgynghoriad wedi digwydd yn ystod pandemig Covid-19. Cafodd yr ymgynghoriad ei gefnogi gan ymgyrch yn y cyfryngau lleol. Anfonwyd llythyrau hefyd at unrhyw un oedd wedi cofrestru ar y rhestr bostio. Derbyniodd yr Aelod Cabinet y pwynt pwysig a godwyd. Fodd bynnag, wrth symud ymlaen mae'r awdurdod wedi ymrwymo i estyn allan mewn ffordd fwy strwythuredig at gymunedau nad ydynt fel arfer yn ymgysylltu.
- Gofynnwyd i'r swyddog a fyddant yn gwneud unrhyw beth yn wahanol mewn ymarferion ymgynghori o'r math yma yn y dyfodol. Dywedodd swyddogion y byddai galw mawr mewn digwyddiadau yn cael ei gynnal er mwyn i swyddogion gwrdd â thrigolion wyneb yn wyneb. Nid oedd hyn yn bosib yn ystod y cyfnod clo. Byddai hyn yn cael ei wneud ochr yn ochr â'r cyfryngau cymdeithasol ac ymgyrchoedd rhithwir a oedd wedi profi'n llwyddiannus.
- Gofynnodd yr aelodau a fyddai plant a phobl ifanc yn cymryd rhan mewn llunio'r fersiwn sy'n addas i blant o'r ddogfen ymgynghori. Croesawodd y swyddogion yr awgrym a rhoddwyd addewid y byddai hyn yn cael ei wneud.

Dechreuodd y Cadeirydd y drafodaeth ar yr eitem hon. Gwahoddwyd yr aelodau i ofyn am eglurhad, sylwadau neu godi cwestiynau ar y wybodaeth a ddarparwyd. Mae'r drafodaeth hon wedi ei chrynhai isod:

40 : BLAENGYNLLUN GWAITH DRAFFT

Gwahoddwyd aelodau i awgrymu materion posib i'w cynnwys yn y rhaglen waith yn y dyfodol. Bu'r Pwyllgor yn trafod nifer o bynciau posib.

PENDERFYNWYD – Y dylid nodi'r adroddiad.

41 : GOHEBIAETH PWYLLGOR

PENDERFYNWYD – Y dylid nodi'r adroddiad.

42 : EITEMAU BRYD (OS OES RHAI)

Dim eitemau bryd.

43 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Rhoddwyd gwybod i'r aelodau y byddai cyfarfod nesaf y Pwyllgor Craffu'r Amgylchedd yn cael ei gynnal ar 8 Rhagfyr 2022.

44 : GOHEBIAETH YN DILYN CYFARFOD Y PWYLLGOR

Daeth y cyfarfod i ben am 6.30 pm